| Teitl Swydd: Asesydd Busnesau Newydd | Lleoliad: M-SParc / Hybrid | Busnes Cymru \| Business Wales |
| --- | --- | --- |
| **Yn atebol i:** Arweinydd y Tîm Dechrau Busnes | **Yn gyfrifol am:** | **Band cyflog:** £26,475 - £30,888 |

**Cefndir y Swydd:**

Busnes mewn Ffocws yw partner cyflenwi arweiniol Enterprise Partnership Cymru (EPC), ynghyd â Menter Môn, M-SParc ac ecosystem o asiantaethau cymorth ledled Cymru. Mae EPC wedi ennill y contract i ddarparu gwasanaeth Busnes Cymru ar ran Llywodraeth Cymru, gan ddarparu cyngor a chymorth i entrepreneuriaid ledled Cymru.

Bu EPC yn llwyddiannus yn eu cais i ddarparu gwasanaethau cynghori Busnes Cymru, sef y Gwasanaeth Entrepreneuriaeth a Dechrau Busnes a'r Gwasanaeth Tyfu a Datblygu Busnes.

Mae'r Gwasanaeth Entrepreneuriaeth a Dechrau Busnes yn canolbwyntio ar ddarparu ystod eang o gyngor i bobl ifanc a busnesau newydd drwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys cymorth digidol, dros y ffôn ac wyneb yn wyneb.

**Pwrpas y Swydd:**

Monitro a chynnal ymyriadau priodol ar gyfer cleientiaid yn dibynnu ar yr anghenion a nodir drwy'r systemau brysbennu digidol a'r systemau diagnostig digidol cychwynnol.

Bydd yr Asesydd Busnesau Newydd, lle bo'n briodol, yn cynnal a/neu'n adolygu diagnosteg busnes gyda chleientiaid i asesu a gwerthuso anghenion cleientiaid ar gyfer materion busnes yn ystod y camau cynnar a chyn-cychwyn, ynghyd â helpu gydag unrhyw rwystrau ychwanegol y gall cleientiaid eu hwynebu. Gan ddilyn methodoleg asesu ragnodedig, nodi'r cymorth mwyaf priodol sydd ar gael i ddiwallu anghenion cleientiaid. Cyfeirio cleientiaid at adnoddau digidol, ecosystem Busnes Cymru a sefydliadau cymorth ehangach.

Bydd yr Asesydd Busnesau Newydd yn gallu coladu a gwerthuso gwybodaeth a data a bydd yn casglu gwybodaeth i grynhoi statws presennol taith cyn-cychwyn cleientiaid; i nodi a rhagweld ystod o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) y gellir eu cyflawni yn sgil unrhyw ymyrraeth a chefnogaeth gan Busnes Cymru.

Gyda nifer heriol o gleientiaid dechrau busnes i'w rheoli o fewn y portffolio gwasanaethau, mae'r Asesydd Busnesau Newydd yn cynorthwyo'r tîm cynghori ac ecosystem ehangach Busnes Cymru i reoli prosiectau'r cleientiaid.

| **Cyfrifoldebau:** | **Addysg a Hyfforddiant** |
| --- | --- |
| • Gweithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf i gleientiaid sy'n dechrau busnes ar gyfer yr holl ymholiadau a dderbynnir o lwyfannau digidol, i’r blwch post neu dros y ffôn. Annog ymagwedd digidol-yn-gyntaf a chysylltu â cwsmeriaid yn ystod y broses gynefino, a rhyngweithio’n barhaus trwy lwyfan digidol.<br>• Cynnal neu adolygu diagnosteg gychwynnol i wneud penderfyniad manwl ynghylch cymhwysedd cleientiaid i gael cymorth ac unrhyw anghenion eraill sydd ganddynt, gan gyfeirio a phrosesu pob ymholiad yn unol â hynny, ee cyfeirio at lwyfannau digidol ar gyfer dysgu ac adnoddau ar-lein, cyfeirio at Gynghorwyr priodol yn y model cyflenwi, ac ati.<br>• Lle bo hynny’n briodol, darparu gwybodaeth, cyfeirio a/neu wneud atgyfeiriadau i'r Ecosystem, sefydliadau partner arbenigol a chyfryngwyr. Dogfennu, yn unol â gweithdrefnau ac o fewn amserlenni penodedig.<br>• Gweithio gyda Chynghorwyr i gynnal cysylltiadau â chleientiaid, monitro a chefnogi cleientiaid yn ystod eu taith ar adegau penodedig. Adolygu cynnydd cleientiaid a chanfod a oes angen unrhyw gymorth pellach arnynt, croesgyfeirio er mwyn cynnal ymgysylltiad â'r gwasanaeth neu gyfeirio at bartneriaid allanol a'r Ecosystem fel y bo'n briodol, ac adolygu boddhad cleientiaid.<br>• Gweithio gyda chleientiaid i oresgyn rhwystrau yn ystod y broses gynefino, sianeli cymorth ac wrth roi eu cynlluniau gweithredu ar waith, er enghraifft, er mwyn cynnal momentwm wrth weithio tuag at y nodau y cytunwyd arnynt.<br>• Nodi a chytuno ar gynllun gweithredu o gefnogaeth a/neu fodiwlau dysgu sydd ar gael i gleientiaid, er mwyn cyflawni nodau entrepreneuriaid. Hwyluso trosglwyddiad lle mae cleientiaid yn symud ymlaen trwy opsiynau cymorth ac yn cael eu cyfeirio at Gynghorydd, a/neu rhanddeiliaid trydydd parti. Dangos | **Dymunol**:<br>• Cymhwyster cysylltiedig â busnes, ee ILM Lefel 2 Cymorth Busnes, Gweinyddu Busnes Lefel 3 NQF, neu uwch.<br><br>**Profiad a Gwybodaeth**<br><br>**Hanfodol**:<br>• Dealltwriaeth dda o sut mae busnesau bach lleol yn gweithredu ac anghenion BBaChau yng nghyd-destun yr economi ranbarthol.<br>• Profiad a gwybodaeth am y cymorth busnes cyffredinol sydd ar gael gan y sectorau cyhoeddus a phreifat.<br>• Profiad da o weithio ym maes cymorth busnes, naill ai yn y sector cyhoeddus neu breifat.<br>• Gweithio mewn gwasanaeth sy'n cydymffurfio â chydraddoldeb ac amrywiaeth, gan ddarparu gwasanaeth hollgynhwysol.<br><br>**Dymunol:**<br>• Gweithio mewn tîm gwasanaethau cymorth i wneud nifer fawr o ymholiadau cleientiaid a darparu gwasanaeth effeithiol i safon uchel o wasanaeth cwsmeriaid.<br>• Gweithio dan bwysau i gyflawni targedau tîm/amcanion rhanbarthol. |

tystiolaeth yn y gwaith papur digidol angenrheidiol, yn unol â gofynion cytundebol a gweithdrefnau gweithredol.

- Datblygu a chynnal ymgysylltiad gyda rhwydwaith effeithiol a strwythuredig o rhanddeiliaid i lunio arweiniad ar broffil gyda DPA ymgysylltu, ac i gyfeirio a darparu cymorth i gleientiaid. Sicrhau bod y rhwydwaith yn cynnwys amrywiaeth o'r sector cyhoeddus, ee Gyrfa Cymru, Twf Swyddi Cymru, Sefydliadau AU/AB, ac o'r Ecosystem ehangach; o'r sector preifat a'r trydydd sector, ee gwasanaethau cyfieithu, Chwarae Teg; ac o sefydliadau mewn grwpiau eraill heb gynrychiolaeth ddigonol, ee ACF, The Cae a C4W.
- Annog cleientiaid i ymgysylltu â grwpiau/digwyddiadau rhwydweithio cymunedol ac ar-lein lleol i annog rhwydwaith cefnogi cymheiriaid sy'n cyfranogi'n rheolaidd ac ystyrlon.
- Nodi ac annog cleientiaid sydd â'r potensial i fod yn llysgenhadon Busnes Cymru neu i gymryd rhan yn rhaglen Fentora Busnes Cymru fel Mentor.
- Rheoli data cleientiaid yn gywir gan sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei gofnodi ar systemau digidol rhagnodedig a bod canlyniadau ymyrraeth yn cydymffurfio o ran gofynion tystiolaeth a dogfennu.
- Cynnal ymgysylltiad lleol/rhanbarthol effeithiol gyda chleientiaid, cydweithwyr a rhanddeiliaid i hyrwyddo'r gwasanaeth, gan sicrhau rhwydwaith atgyfeirio effeithiol.
- Cynnal gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r cymorth a'r gwasanaethau yn y sector cyhoeddus a phreifat sydd ar gael i BBaChau yn y rhanbarth.
- Mynd ati'n rhagweithiol i adnabod cleientiaid llwyddiannus ar gyfer astudiaethau achos at ddibenion marchnata a chysylltiadau cyhoeddus er mwyn hyrwyddo gwasanaeth Busnes Cymru.
- Cyflawni dyletswyddau mewn modd proffesiynol ac amserol gan ddarparu gwasanaeth o safon uchel i gwsmeriaid.
- Cefnogi Arweinydd y Tîm Dechrau Busnes trwy nodi a gwneud argymhellion ar gyfer gwelliant parhaus, ee gweithdrefnau, systemau gwaith. Rhannu

- Gweithio mewn amgylchedd sy'n gofyn am gywirdeb, i gydymffurfio â safonau a gweithdrefnau archwiliedig mewnol ac allanol rhagnodedig.

**Sgiliau a Chymwyseddau**

**Hanfodol**:

- Yn effeithiol wrth bennu blaenoriaethau, cynllunio amser, trefnu llwyth gwaith i sefydlu canlyniadau, amcanion a cherrig milltir mesuradwy i chi eich hun ac i eraill.
- Cyfathrebu - llafar: Addasu arddull a manylion i'r gynulleidfa. Y gallu i ryngweithio'n effeithiol â phobl; darbwyllo a dylanwadu ar bobl ar bob lefel; esbonio/cyflwyno gwybodaeth yn gryno ac yn rhesymegol.
- Cyfathrebu - ysgrifenedig: Addasu arddull a manylion i'r gynulleidfa. Cyflwyno gwybodaeth yn gywir, yn gryno ac yn rhesymegol.
- Gwasanaeth Cwsmeriaid – yn cydweithio ag eraill yn effeithiol, yn gallu nodi anghenion a darparu datrysiadau ymarferol, yn gallu rheoli disgwyliadau, ac addasu ymagwedd unigol at wahanol sefyllfaoedd.
- Dysgu/Gwella – mynd ati'n rhagweithiol i chwilio am wybodaeth, i ddysgu o gamgymeriadau a hybu adborth adeiladol.
- Yn gallu gweithio'n gynhyrchiol ar adegau o bwysau ac addasu a derbyn bod amgylchiadau yn gallu newid.
- Gweithredu gydag uniondeb uchel, amddiffyn cyfleoedd cyfartal ac arwain trwy esiampl i gynnal moeseg a gwerthoedd sefydliadol.
- Profiadol wrth ddefnyddio llwyfannau digidol gyda sgiliau TG cryf, ee Microsoft Office/365.

| | |
|---|---|
| gwybodaeth yn rhagweithiol â rheolwyr i ddatblygu ymgysylltiad, cyrhaeddiad a darpariaeth gwasanaeth.<br>• Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill sy'n ofynnol gan Dîm Rheoli Busnes Cymru ac/neu Menter Môn.<br><br>Cydraddoldeb ac Amrywiaeth:<br>• Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy'r cymorth busnes a ddarperir i gleientiaid Busnes Cymru;<br>• Cynnal ymwybyddiaeth, hyfforddiant a DPP cyfredol ar faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth a sut i ddarparu gwasanaeth cynhwysol yn broffesiynol i bob cleient.<br>• Darparu a datblygu gwasanaeth cynhwysol, yn unol â gwerthoedd Menter Môn a gofynion cytundebol Llywodraeth Cymru.<br><br>*Mae'r uchod yn ddiffiniad eang o gyfrifoldebau'r swydd. Nid yw'n ystyried pob agwedd ar y swydd y gallai fod yn ofynnol i ddeiliad y swydd ei chyflawni. Mae hyblygrwydd yn hanfodol oherwydd bydd oriau gwaith deiliad y swydd yn cael eu pennu gan ofynion y busnes.* | **Arall**<br><br>**Hanfodol:**<br>• Y gallu i gyfathrebu yn hyderus/rhugl trwy’r Gymraeg a’r Saesneg<br>• Trwydded yrru ddilys y DU a defnydd o gerbyd wedi'i yswirio'n briodol, gyda MOT dilys (lle bo'n briodol), i deithio yn y rhanbarth yn rheolaidd i gyflawni dyletswyddau, ee mynychu digwyddiadau, cyfarfodydd. (Angen tystiolaeth)<br>• Gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) boddhaol. |